Yr Athro Geoffrey Hammond
Prifysgol Caerfaddon

Mae Geoffrey Hammond yn Athro Peirianneg Fecanyddol ac yn Gyfarwyddwr Sefydlu gyda'r Sefydliad er Ynni Cynaliadwy a'r Amgylchedd (I•SEE) ym Mhrifysgol Caerfaddon. Penodwyd ef hefyd yn Athro Anrhydeddus Bio-ynni Cynaliadwy ym Mhrifysgol Nottingham yn 2010. Mae'r Athro Hammond yn beiriannydd mecanyddol â chefndir amlddisgyblaethol, gan gynnwys peirianneg a rheolaeth amgylcheddol. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn ymwneud yn bennaf ag asesu systemau ynni (gan gynnwys bio-ynni a biodanwydd) a llwybrau pontio tuag at ddyfodol carbon isel, gan ddefnyddio pecyn o ddulliau sy'n deillio o'r gwyddorau amgylcheddol a pheirianyddol. Mae'r ymchwil hwn newydd dderbyn cyllid yn y Deyrnas Unedig gan amryw o asiantaethau'r Llywodraeth, cwmnïau diwydiannol, a sawl Cyngor Ymchwil. Roedd yn gyd-sylfaenydd y 'Rhestr Garbon ac Ynni' (ICE), a ddefnyddir yn eang bellach gan ymarferwyr er mwyn amcangyfrif 'ôl troed carbon' cynnyrch a phrosiectau adeiladu. Mae Geoffrey Hammond yn awdur neu'n gydawdur amryw o bapurau ymchwil, ac yn gyd-dderbynnydd Medal Arian Dufton a Gwobr George Stephenson am ddau o'r cyhoeddiadau hyn. Mae'r Athro Hammond ar fwrdd golygyddol amryw o gyhoeddiadau 'ynni' archifol, ac yn ddiweddar penodwyd ef yn Asesydd Cynnyrch ar 'Ynni a Chynaliadwyedd' ar gyfer Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF 2014) y Deyrnas Unedig. Yn y blynyddoedd diwethaf cynghorodd amryw o adrannau ac asiantaethau Llywodraeth y DU ar faterion yn ymwneud ag ynni a'r amgylchedd. Penodwyd ef yn Gadeirydd Pwyllgor Strategaeth Newid Hinsawdd newydd y Sefydliad Safonau Prydeinig (BSi) yn nechrau 2014.